**YMATEBION CYMDEITHAS YR IAITH**

**Adran 4: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu – Cynnig 1**

**Cynnig 1**
**I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig i greu cymhwyster TGAU iaith a llenyddiaeth cyfun newydd yn Saesneg a Chymraeg i ddisodli'r Cymwysterau TGAU ar wahân presennol? Byddai'r Cymwysterau TGAU cyfun newydd tua'r un maint a 1 ½ TGAU.**

**Dewiswch un o'r opsiynau canlynol**

**ANGHYTUNO'N GRYF**

**Esboniwch eich ateb isod. Gall eich ateb fod hyd at 1,000 o eiriau**

*Mae'n hanfodol bod y syniad o ddiddymu Cymraeg Ail Iaith a chyflwyno continwwm ieithyddol yn mynd y tu hwnt i newidiadau mewn terminoleg ac agweddau arwynebol addysgu'r Gymraeg." (*Comisiynydd y Gymraeg, gohebiaeth at Siân Gwenllian AS, Ionawr 2021).

Y mater mwyaf allweddol am gwricwlwm y Gymraeg a safonau cyrhaeddiad yn y Gymraeg yw'r methiant i godi safonau dysgu Cymraeg ail iaith. Yn ôl sbin swyddogion Cymwysterau Cymru, mae'r sefyllfa'n gwella, ond ar yr un pryd cydnabyddir methiant y drefn bresennol yn y ddogfen ymgynghori: "*ni phenodir digon o amser i addysgu a dysgu Cymraeg a fyddai'n caniatáu i ddysgwyr wneud cynnydd cyson...Ar draws y system mae angen athrawon a chymwysterau mwy addas..."* (tudalen 32, Ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol, Cymwysterau Cymru, 2021). Oni bai bod y gofynion a'r disgwyliadau ar ysgolion yn codi, bydd y diffygion yma'n parhau. Oni bai ein bod yn sefydlu un continwwm o ddysgu, mesur cynnydd ac asesu i bob disgybl, bydd y diffygion difrifol yn parhau a bydd 80% o bobl ifanc Cymru'n cael eu hamddifadu o'r gallu i fod yn gwbl ddwyieithog.

Yn ogystal, mae angen codi safonau Llythrennedd yn gyffredinol a gosod cyd-destun dysgu iaith sy'n gyfoes, perthnasol a chyffrous i bobl ifanc. Dylai'r asesiad adlewyrchu hyn drwy gynnwys meysydd trafod megis hawliau a chyfiawnder personol a chymdeithasol, gwleidyddiaeth a democratiaeth gymunedol yng Nghymru a'r tu hwnt, dathlu amrywiaeth diwylliannol Cymru, a thechnoleg newydd mewn byd gwaith a hamdden.

**ARGYMHELLIAD: Cymhwyster Iaith Llenyddiaeth a'r Gymru gyfoes – cyfwerth â 2 TGAU i ddisodli'r cymhwyster presennol.**

Fel y nodwyd yn yr adroddiad gan arbenigwyr '*Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4'* (Medi 2013)" :'*Cymraeg ail iaith yw'r pwnc gyda'r perfformiad gwaethaf yng Nghyfnod Allweddol 3, gyda 68.2% yn unig o*

*ddisgyblion yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (Lefel 5 neu'n uwch). Mae'r lefelau cyrhaeddiad gwael yn parhau yng Nghyfnodau Allweddol 4."* (paragraff 3.19)

Ni fu newid arwyddocaol yn y sefyllfa yma dros yr wyth mlynedd diwethaf. Cadarnheir hyn gan adroddiadau blynyddol diweddaraf Estyn.

**Adroddiad Blynyddol Estyn, 2018-19**

Yn yr ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg: "*Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae cynnydd disgyblion yn y Gymraeg yn araf yn yr ysgol uwchradd. Er eu bod yn aml yn gallu ateb cwestiynau arholiadau ysgrifenedig yn briodol, mae medrau llafar llawer o ddisgyblion wedi'u datblygu'n wael. Yn aml, ni allant ddeall nac ymateb i gwestiynau neu ddatganiadau syml ar lafar." (tudalen 92).*

**Adroddiad Blynyddol Estyn, 2019-20**

"*... mewn llawer o ysgolion, er eu bod yn caffael y gallu i ateb cwestiynau arholiadau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd araf wrth ddatblygu'u hiaith lafar, ac yn aml maent yn cael anhawster deall neu ateb cwestiynau syml hyd yn oed. Maent yn cael trafferth gyda'u hynganu, nid oes ganddynt eirfa sylfaenol, ac nid yw'r hyder ganddynt i ateb mewn brawddegau llawn. Hefyd, maent yn cael anhawster darllen Cymraeg sylfaenol."* (tudalen 38)

"*... cyfleoedd cyfyngedig iawn, heblaw am wrando ac ymateb i gyfarchion a chyfarwyddiadau sylfaenol gan eu hathrawon, sydd iddynt ymarfer yr iaith, ac eithrio mewn gwersi Cymraeg."* (tudalen 42)

Mwy trawiadol fyth yw'r dystiolaeth yn y tabl isod yn sgil prosiect ymchwil i agweddau dysgwyr ar fynediad i Addysg Bellach a gomisiynwyd yn 2018 gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (*Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, 2019).

**Sgiliau Iaith myfyrwyr Addysg Bellach a Phrentisiaethau**

| | **Rhugl** | **Sgyrsiol** | **Sylfaenol** | **Dim sgiliau yn y Gymraeg** |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg Bellach** | 11% | 5% | 36% | 49% |
| **Prentisiaethau** | 11% | 4% | 27% | 58% |

Mae'r dystiolaeth uchod yn frawychus, a hyn er gwaetha'r ffaith bod y Gymraeg wedi bod yn bwnc statudol yng Nghyfnod Allweddol 4 ers 1999 a bod y disgyblion uchod wedi bod yn cael gwersi Cymraeg am 12 mlynedd. Mae'r ystadegau'n tanlinellu'r angen am newid radical yn nhrefn dysgu ac asesu'r Gymraeg – **ni fydd ail-frandio Cymraeg Ail Iaith fel yr argymhellir yng nghynigion Cymwysterau Cymru yn gwneud dim ond parhau'r anghyfiawnder presennol**. I ddyfynnu Comisiynydd y Gymraeg: "*byddwn ymhen deg i bymtheg mlynedd yn wynebu sefyllfa debyg iawn i'r un sy'n bodoli heddiw, lle bydd cyfran sylweddol o ddisgyblion yn parhau i gael eu hamddifadu o'r cyfle i fod yn ddwyieithog."* (Ionawr 2021, gweler uchod)

**Cynnig 2**

**I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig i gael gwared â TGAU Cymraeg Ail-Iaith a chreu cymhwyster TGAU newydd, mwy o faint wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg? Byddai'r cymhwyster newydd maint 1 ½ TGAU.**

**Dewiswch un o'r opsiynau canlynol**

## ANGHYTUNO'N GRYF

**Esboniwch eich ateb isod. Gall eich ateb fod hyd at 1,000 o eiriau**

Mae polisi Llywodraeth Cymru o sefydlu un continwwm dysgu ar gyfer y Gymraeg yn seiliedig ar farn arbenigwyr iaith. O dderbyn yr egwyddor o un continwwm ar gyfer y Gymraeg, sicrheir dilyniant a pharhad yn y dysgu a'r addysgu ar draws y cyfnodau dysgu. Yn sgil hynny, mae'n rhesymol disgwyl trefn gyson o fesur cynnydd a chyrhaeddiad a threfniadaeth asesu derfynol sy'n adlewyrchu hynny. Hynny yw, bod y Gymraeg yn cael ei thrin fel pob maes profiad arall yn y cwricwlwm gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle cyfartal. Gresynir at benderfyniad Cymwysterau Cymru i ddiystyru sefydlu cymhwyster TGAU cyfannol fel opsiwn i ddisodli'r cymwysterau TGAU Cymraeg a TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol yn yr ymgynghoriad yma ar asesu'r cwricwlwm. Mae'r penderfyniad yn anghyfrifol, yn annemocrataidd ac yn adlewyrchu rhagfarn Cymwysterau Cymru o'r cychwyn cyntaf yn erbyn yr egwyddor o 'gontinwwm' ar gyfer dysgu Cymraeg.

## ARGYMHELLIAD: Llunio cymhwyster cyfannol yn seiliedig ar gontinwwm dysgu Cymraeg gan ganiatáu dyfarniad deuol a chyfle cyfartal i holl ddisgyblion Cymru.

Mae'n warth nad yw Cymwysterau Cymru wedi cynnwys TGAU cyfannol fel un o'r opsiynau wrth ymgynghori ar asesu'r Gymraeg yn y cwricwlwm Cymraeg newydd. Mae'r dadleuon a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghoriad i gyfiawnhau'r penderfyniad yma yn adlewyrchiad o ragfarn y sefydliad:

a) *"mae graddfa'r gwahaniaeth rhwng disgwyliadau'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg ac ar gyfer y rhai mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhy fawr i'w cynnwys o fewn un cymhwyster."* (tudalen 33)

   **Dyma un o'r dadleuon cryfaf dros ddileu Cymraeg Ail Iaith a sefydlu un continwwm.** Y bwlch yma yn y disgwyliadau rhwng Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith sydd wedi arwain at greu trefn eilradd o ddysgu ac addysgu'r Gymraeg i 80% o ddisgyblion Cymru. Rhaid sicrhau nad yw'r drefn asesu newydd yn parhau i arwain at ddisgwyliadau isel a thangyflawniad difrifol drwy sefydlu trefn asesu ar hyd yr un continwwm fel gyda phob pwnc arall yn y cwricwlwm.

b) *“Byddai hefyd yn annheg ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwyr sefyll yr un cymhwyster oherwydd byddai dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg fel arfer yn derbyn graddau is na’u cyfoedion mewn cyd-destunau Cymraeg a dwyieithog.”* (tudalen 33)
Dylai safonau cyrhaeddiad disgyblion fod yn ddibynnol ar ansawdd y dysgu a’r addysgu ac nid ar gyfrwng iaith yr ysgol. Nid oes tystiolaeth i ddangos bod disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn tangyflawni mewn Saesneg ond mae toreth o dystiolaeth o adroddiadau arolygol ac adroddiadau ar ddysgu Cymraeg Ail Iaith yn dangos tangyflawniad difrifol dros flynyddoedd lawer. Yn ein barn ni, gellid datblygu asesiad gwahaniaethol a fyddai’n rhoi cyfle cyfartal i bob disgybl gyflawni yn ôl ei gallu. Yn ogystal â hynny, byddai sefydlu trefn o ddysgu, addysgu ac asesu ar hyd un continwwm yn codi disgwyliadau ysgolion, athrawon a disgyblion a fyddai yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ac uniongyrchol ar safonau cyrhaeddiad a statws y pwnc yn llygaid disgyblion, athrawon a rhieni. Wrth symud i drefn o ddysgu Cymraeg ar hyd un continwwm, byddai mwy o bwyslais ar hyfforddiant mewn swydd ychwanegol; hyfforddiant cychwynnol a fyddai’n rhoi mwy o bwyslais ar sut i ddysgu Cymraeg i gefnogi’r Gymraeg ar draws y cwricwlwm; mwy o ddysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg a mwy o gyfleoedd i atgyfnerthu’r Gymraeg drwy weithgareddau allgyrsiol.

c) *“Byddai hyn yn cael yr effaith o ddadysgogi ac ymddieithrio dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.”* (tudalen 33)
Un o wendidau mwyaf difrifol y drefn bresennol yw bod disgwyliadau isel yn arwain at dangyflawniad ac yn sgil hynny ddiflastod, a hynny ymysg disgyblion galluog yn arbennig. **Dadysgogi ac ymddieithrio dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yw un o’r prif feirniadaethau o’r drefn bresennol ac un o’r prif ddadleuon dros sefydlu un continwwm o ddysgu Cymraeg gan ganiatáu i ddisgyblion gyflawni yn ôl eu gallu yn hytrach na gosod nenfwd isel ar gyrhaeddiad a sgil-effaith hynny ar statws y pwnc yn yr ysgol ac agwedd negyddol disgyblion at y pwnc.**

Nodir hefyd “*ni phenodir digon o amser i addysgu a dysgu Cymraeg a fyddai’n caniatáu i ddysgwyr wneud cynnydd cyson ... Ar draws y system, mae angen athrawon â chymwysterau mwy addas mewn ysgolion i gyflwyno mwy o ddysgu Cymraeg.”* (tudalen 35)

Drwy roi pwyslais ar un continwwm o ddysgu Cymraeg ac ar ddilyniant a pharhad, byddai’n ofynnol i ysgolion roi mwy o amser i ddysgu Cymraeg, yn enwedig wrth i ddisgyblion drosglwyddo o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. Ni fydd y drefn fel y mae yn newid oni bai bod y gofynion ar ysgolion yn newid, a bydd ail-frandio Cymraeg Ail Iaith fel y gwneir yn argymhellion Cymwysterau Cymru yn arwain at barhad y drefn bresennol.

Oni bai bod datblygu un continwwm o ddysgu Cymraeg yn arwain at drefn newydd o sicrhau dilyniant a pharhad yn y dysgu a’r addysgu, mesur cynnydd ac un cymhwyster

cyfannol, bydd 80% o ddisgyblion Cymru yn parhau i gael eu hamddifadu o'r cyfle i fod yn ddwyieithog. Nid bai'r disgyblion yw hynny ond diffyg cyfle cyfartal a threfn addysg sy'n gadael pobl ifanc i lawr.

Yn yr adroddiad '*Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*' (Medi 2013), mae'r grŵp adolygu yn pwysleisio'r angen i ddatblygu TGAU llawn (neu gymwysterau cyfwerth) yn seiliedig ar y cwricwlwm diwygiedig, ac i ddileu'r cwrs TGAU byr (sydd wedi digwydd erbyn hyn).

Wrth ystyried cymwysterau newydd ar gyfer y continwwm dysgu Cymraeg, mae'r grŵp adolygu yn argymell "*y dylai dau gymhwyster TGAU llawn (neu gymwysterau cyfwerth) fod ar gael i wahaniaethu rhwng disgyblion sy'n dysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a disgyblion sy'n dysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog"* (paragraff 4.38). Fodd bynnag, gall hyn fod yn niweidiol iawn i'r holl gysyniad o gontinwwm dysgu oherwydd gall arwain at ail-greu trefn ail iaith o dan enw arall ac yn wir ostwng disgwyliadau i ysgolion ac i ddisgyblion, yn arbennig os nad yw'r disgwyliadau asesu yn seiliedig yn uniongyrchol ar y continwwm dysgu. Yn yr un paragraff mae'r grŵp adolygu yn cynnig "*ystyried datblygu dyfarniad deuol lle y byddai disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael gradd ychwanegol i ddangos y radd gymharol y byddent wedi'i hennill mewn arholiad Cymraeg (iaith gyntaf).*"

Cred Cymdeithas yr Iaith y dylid datblygu arholiad cyfannol, ac amlinellwyd trefniadau asesu a fyddai'n cydnabod yr ystod o gyraeddiadau yn y ddogfen '*Un Cymhwyster Cymraeg Iaith i Bawb*' (Ebrill 2019). Roedd yr argymhellion yma'n deillio o ymgynghoriad gydag arbenigwyr yn y maes, gan gynnwys athrawon Cymraeg, penaethiaid adran, athrawon ymgynghorol, ymgynghorwyr iaith, Comisiynydd y Gymraeg, cynghorwyr, UCAC, dysgwyr ac aelodau'r cyhoedd. Cynhaliwyd seminar agored ym mis Mai 2018.

Yn sgil y datblygiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf a Deddf y Cwricwlwm, rydym yn parhau i fod o'r farn mai arholiad cyfannol fyddai'r opsiwn gorau. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod yr angen i ymateb i'r amrywiaeth o amgylchiadau dysgu. Argymhellwn y model isod a hynny fel sail ar gyfer dyfarniad deuol. Byddai'r dyfarniad yma'n gyfwerth â dau gymhwyster TGAU. Byddai'n gwbl glir bod yr asesiad yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyrhaeddiad ar hyd continwwm iaith. Yr ysgol, ar sail arholiadau ysgol a gwaith cwrs y disgyblion, fyddai'n penderfynu pa arholiad fyddai fwyaf addas ar gyfer disgyblion unigol.

## Asesiad cyfannol a dyfarniad deuol

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A* | A | B | C | D | E | F | | | **Cymraeg Uwch** |
| | | A* | A | B | C | D | E | F | **Cymraeg** |

Pob disgybl i sefyll dau bapur arholiad:

1. papur arholiad cyffredinol Cymraeg/Cymraeg Uwch; byddai safonau cyrhaeddiad yn y papur yma'n ymestyn o radd B Cymraeg Uwch i radd F Cymraeg; A NAILL AI

a) papur arholiad Cymraeg Uwch, graddau safon Cymraeg Uwch fel y nodir uchod; NEU

b) papur arholiad Cymraeg, graddau safon Cymraeg fel y nodir uchod.

Byddai'r dyfarniad gradd terfynol yn seiliedig ar ganlyniad y ddau papur.

Mantais y model yma yw y byddai'r disgwyliadau ar gyfer y naill bapur a'r llall yn gwbl glir ac yn gorgyffwrdd. Byddai hynny yn ei dro yn cynnig cyfle i ddisgyblion uwch eu gallu yn y Gymraeg, ond sy'n sefyll arholiad Cymraeg, gyrraedd gradd B Cymraeg Uwch a chael cydnabyddiaeth am hynny. Gall y model hefyd osod disgwyliadau a nod cyrhaeddiad uwch i ddisgyblion a rhoi'r cyfle i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng dwyieithog sefyll arholiad Cymraeg Uwch, gan wybod y byddant yn derbyn gradd Cymraeg, hynny yw dyfarniad deuol, fel yr awgrym yn '*Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*' (2013) – **wyth mlynedd yn ôl**.

**Cynnig 3**
**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig i greu set o gymwysterau sgiliau Iaith Cymraeg bach y gellir cymryd yn ychwanegol at gymhwyster TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm Cymraeg?**

**Dewiswch un o'r opsiynau canlynol**

**ANGHYTUNO'N GRYF**

**Esboniwch eich ateb isod. Gall eich ateb fod hyd at 1,000 o eiriau**

**ARGYMHELLIAD: Datblygu modiwlau a set o gymwysterau ychwanegol fel pont rhwng TGAU a dyfarniad Safon Uwch Gyfrannol.**

Fyddai'r cysyniad o gymwysterau ychwanegol ddim ond yn dderbyniol os yw'n gwbl glir bod y cyrsiau yma yn **ychwanegol** at asesiad TGAU ac ond yn agored i ddysgwyr sydd eisoes wedi cwblhau cwrs TGAU. Fel arall bydd yn tanseilio holl bwrpas y cwricwlwm Cymraeg newydd.

Mae perygl gwirioneddol y bydd rhai ysgolion yn gweld cyfle i gynnig y cymwysterau yma yn lle cwrs TGAU llawn. Bydd hyn yn dad-wneud y penderfyniad hollol gywir o gael gwared â'r cwrs byr yn gyfan gwbl, oherwydd bod tystiolaeth gref o arolygiadau ac adroddiadau blynyddol Estyn nad oedd yn addas i bwrpas.

Oni bai ei bod yn gwbl glir i ysgolion mai atodiad ac ychwanegiad i'r arholiad TGAU yw'r set o gymwysterau sgiliau Iaith Cymraeg bach ac mai dim ond fel pont rhwng TGAU a chymwysterau Cymraeg ôl-16 y dylid cynnig y cymwysterau, bydd yn tanseilio'r arholiad

TGAU Cymraeg. Mae hynny oherwydd y gallai ysgolion weld y cymwysterau yma fel fersiwn arall o'r cwrs byr ac fel cyfle i osgoi cyflwyno Cymraeg TGAU yn gyfan gwbl.

"*Ni ellir gwadu ei bod yn unfed awr ar ddeg ar Gymraeg ail iaith ... mae'r safon yn gyffredinol wedi gostwng yn flynyddol yn ôl adroddiadau Estyn; yn wir, mae lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn is nag mewn unrhyw bwnc arall. Petai hyn wedi cael ei ddweud am Fathemateg, neu am y Saesneg, diau y byddem wedi cael chwyldro." (*Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, 2013, Rhagair, tudalen 1). Y tristwch mwyaf yw nad yw Cymwysterau Cymru wedi manteisio ar y cyfle ers cyhoeddi'r adroddiad ar Gymraeg Ail Iaith yn 2013, i ddatblygu cymhwyster newydd a chynnal ymgynghoriad ar y cymhwyster yma ymhell cyn nawr. Mae'r penderfyniad i ddiystyru datblygiad TGAU cyfannol newydd yn fethiant ar lefel sylfaenol.

Mewn llythyr gan y Gweinidog Addysg (24 Chwefror 2021) yn ymateb i Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith i'r feirniadaeth yma, mae'r Gweinidog Addysg yn cydnabod yr angen i edrych ar wahanol opsiynau, ac yn cynnig gobaith o newid: "*Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto ynghylch natur y cymwysterau a fydd ar gael ac rwy'n gobeithio y bydd yr ymgynghoriad hwn yn creu ystod eang o safbwyntiau i helpu ymhelaethu'r ddadl hon a sicrhau bod ein cymwysterau yn y dyfodol yn parhau i ddiwallu anghenion ein dysgwyr."* Collwyd cyfle yn yr ymgynghoriad yma i gasglu barn am gymhwyster TGAU cyfannol. Drwy gyfyngu ar y cyfle i fynegi barn am yr holl ystod o opsiynau posibl, mae Cymwysterau Cymru yn euog o gyfyngu ar y ddadl ac yn dangos diffyg uchelgais a diffyg arweiniad. Heb newid i arholiad TGAU cyfannol, bydd y drefn dysgu Cymraeg yn parhau i wneud cam â'r 80% o ddisgyblion yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg.

**Cynnig 4**
**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynnig i adolygu a diwygio cymwysterau TGAU 'gwneud-i-Gymru' mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.**

**Dewiswch un o'r opsiynau canlynol**

**CYTUNO**

**Esboniwch eich ateb isod. Gall eich ateb fod hyd at 1,000 o eiriau**

**Cynnig 5**
**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno a'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau bach, 'gwneud-i-Gymru' mewn ystod o ieithoedd rhyngwladol i gefnogi ymgysylltu ar a dilyniant mewn dysgu iaith.**

**Dewiswch un o'r opsiynau canlynol**

**ANGHYTUNO**

**Esboniwch eich ateb isod. Gall eich ateb fod hyd at 1,000 o eiriau**

Gweler y sylwadau uchod mewn ymateb i Gynnig 3.